Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff - Cronfa Ysgolion

Mae ein Cronfa Ysgolion yn cefnogi ysgolion i ddatblygu prosiectau a rhaglenni a fydd yn annog rhagor o bobl ifainc i wneud rhagor o ymarfer corff, yn fwy aml. Mae modd i ysgolion wneud cais am rhwng £250 a £750. Rhaid i brosiectau ganolbwyntio ar o leiaf un o'n themâu allweddol:

- **Canolbwyntio ar Hwyl**
- **Ymgysylltu â Theuluoedd**
- **Llysgenhadon Ifainc**
- **Dileu Rhwystrau**
- **Sylfaen**

Eleni, cyflwynodd cyfanswm o 16 o ysgolion gais am ein Cronfa Ysgolion, a chafodd 13 o brosiectau eu cymeradwyo. Roedd yna amrywiaeth o brosiectau o glybiau ar ôl ysgol newydd, clybiau amser cinio/amser egwyl, offer synhwyraidd, cymorth llysgenhadon ifainc ac ymgysylltu â theuluoedd. Er bod nifer y ceisiadau eleni yn is nag arfer, roedd ansawdd y ceisiadau yn uchel iawn. Roedd y ceisiadau'n cynnwys llais pobl ifainc, ymgynghori, a sail resymegol glir ar gyfer y prosiect. Bydd pob ymgeisydd llwyddiannus bellach yn cyflawni eu prosiectau, ac yna'n cyflwyno Adroddiad Cwblhau Prosiect sy'n ein galluogi i fesur yr effaith

*"Mae'r offer wedi cyrraedd. Diolch o galon i chi, mae'r plant yn edrych ymlaen yn fawr at eu defnyddio ac rydw i a'r Uwch Dîm Arwain yn ei werthfawrogi'n fawr"* Athro/Athrawes

*"Dyna newyddion gwych am y cais! Maen nhw wrth eu boddau â badminton ar hyn o bryd – dydw i ddim yn siŵr pam mai badminton yn benodol sy'n eu diddori, ond unrhyw beth sy'n eu cael nhw i symud!"*

Athro/Athrawes

Dros **£3,500** wedi'i ddyfarnu

**8%** yn brosiectau ymgysylltu â theuluoedd

**31%** yn brosiectau sylfaen

**13** o geisiadau wedi'u cymeradwyo

**46%** yn ymwneud â llysgenhadon ifainc

**100%** yn canolbwyntio ar hwyl

**70%** yn dileu rhwystrau i gyfranogiad

RHONDDA CYNON TAF

52728-15